# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 4 Mehefin 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(135)

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 11 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 4 a 5 eu grwpio. Gwahoddodd y Diprwy Lywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

Dechreuodd yr eitem am 14.15

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 5, 7 a 9 i 11. Tynnwyd cwestiwn 6 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 8.

### 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 15.00

### 4 Datganiad gan y Prif Weinidog: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu

Dechreuodd yr eitem am 15.14

#### Pwynt o Drefn

Cododd Andrew RT Davies, Arweinydd yr Wrthblaid, bwynt o drefn yn gofyn am benderfyniad ar y dogfennau a oedd wedi'u rhoi i Aelodau mewn perthynas â'r Datganiad ar yr Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu, yn enwedig yr Atodiad i'r Rhaglen Lywodraethu a oedd ond wedi'i roi ar-lein i Aelodau yn hwyrach.

Penderfynodd y Dirprwy Lywydd fod disgwyl i ddogfennau y cyfeirir atynt mewn datganiadau fod ar gael i Aelodau ac, oherwydd bod amheuaeth ynghylch beth oedd wedi'i roi y prynhawn yma, cytunodd i adolygu Cofnod y Trafodion a dychwelyd at y mater pe bai o'r farn bod angen penderfyniad pellach.

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio ac ymateb i'r Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur

Dechreuodd yr eitem am 16.15

## 6 Cynnig i gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol y Bil Teithio Llesol (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 16.50

**NDM5251 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Teithio Llesol (Cymru)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Teithio Llesol

Dechreuodd yr eitem am 17.46

**NDM5252 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Teithio Llesol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Ni chafwyd Cyfnod Pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:47

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 5 Mehefin 2013**